# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy AHNE
Park Gwledig Loggerheads, Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH

Clwydian Range and Dee Valley AONB
Loggerheads Country Park, Nr. Mold, Denbighshire CH7 5LH

Ffon | Tel: 01352 810614 | Ffacs | Fax: 01352 810644
E-bost | E-mail: clwydianrangeanddeevalley@denbighshire.gov.uk
Gwefan: www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk/
Web: www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/

www.facebook.com/Clwydian Range & Dee Valley AONB
@Clwyd_Dee_AONB

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | Dyddiad: | 14 Mawrth 2022 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | Ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Dydd Gwener, 18 Mawrth 2022** am **10.00 am** trwy **Cynhadledd fideo.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD**

**2 COFNODION** (Tudalennau 3 - 6)

Ystyried cofnodion Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2021 (copi ynghlwm).

**3 COFNODION DRAFFT Y BARTNERIAETH AHNE A GYNHALIWYD AR 4 CHWEFROR 2022** (Tudalennau 7 - 12)

I nodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2022 (copi ynghlwm).

**4 COFNODION DRAFFT EIN PARTNERIAETH TIRWEDD DDARLUNIADWY A GYNHALIWYD AR 7 RHAGFYR 2021** (Tudalennau 13 - 16)

I nodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021 (copi ynghlwm)

**5 ADRODDIAD ARIANNOL Y CYD-BWYLLGOR (EITEM SEFYDLOG)**
(Tudalennau 17 - 20)

Adroddiad Eitem Sefydlog (copi ynghlwm) a gyflwynir gan Steve Gadd - Pennaeth Cyllid ac Eiddo a Paula O'Hanlon - Senior Finance – Uwch Swyddog Cyllid a Sicrwydd.

**6 TIRWEDD AC ADENNILL NATUR MEWN HINSAWDD SY'N NEWID - GOBLYGIADAU I'R AHNE**

Ystyried adroddiad llafar gan swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar y dirwedd ac adferiad natur mewn hinsawdd sy'n newid – goblygiadau i'r AHNE.

**7 DIWEDDARIAD LLAFAR AR BARC CENEDLAETHOL ARFAETHEDIG**

I dderbyn adroddiad llafar gan Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE ar y Parc Cenedlaethol arfaethedig.

**8 COFRESTR RISG DRAFFT** (Tudalennau 21 - 22)

Derbyn y Gofrestr Risg Drafft (copi ynghlwm) gan Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 23 - 26)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol diwygiedig (copi ynghlwm) gan Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE.

**10 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Dydd Gwener 24 Mehefin 2022

Dydd Gwener 4 Tachwedd 2022

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Glyn Banks
Derek Butler
Bobby Feeley
Hugh Jones
David Kelly
Tony Thomas

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**COFNODION CYFARFOD CYDBWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY CYNHALIWYD DDYDD GWENER 5 TACHWEDD 2021**

**AELODAU YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Tony Thomas (Cadeirydd) a Bobby Feeley (Cyngor Sir Ddinbych)
Cynghorydd Glyn Banks (Cyngor Sir y Fflint)
Cynghorydd David Kelly (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Steve Gadd (Pennaeth Cyllid ac Eiddo CSDd), Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE CSDd), David Shiel (Swyddog Cynorthwyol AHNE CSDd), Karen Weaver (Cydlynydd AHNE CSDd), Huw Rees (Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth CSDd), Ceri Lloyd (Swyddog SDF AHNE), Rachel Jones (Arweinydd Tîm AHNE y Gogledd), Tom Woodhall (Rheolwr Mynediad â'r Amgylchedd Naturiol), Rhun Jones (Swyddog AHNE), Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru), Fiona Grant (Cadw), Chris Smith (Uwch Swyddog Polisi Cynllunio, CBSW), Lisa Jones a Sandra Williams (Cyfieithydd, CBSW)

**1. CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Derek Butler (CSFf), y Cynghorydd Hugh Jones (CBSW), Linda Sharp (Pennaeth Polisi Cynllunio, CBSW), Paula O'Hanlon (Uwch Swyddog Cyllid, CSDd), Ashley Battern (Cadw), Kate Thomson a Helen Mrowiec.

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

**2. COFNODION Y CYDBWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 25 MEHEFIN 2021**

Derbyniwyd a chytunwyd fod cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd 25 Mehefin 2021, yn gywir.

***PENDERFYNWYD - Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd 25 Mehefin 2021.***

**3. COFNODION DRAFFT CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWYD AR 15 HYDREF 2021**

Derbyniwyd cofnodion drafft Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2021 er gwybodaeth. Fe wnaeth Howard Sutcliffe grynhoi'r pwyntiau allweddol mewn perthynas â datblygiad twristiaeth, parciau cenedlaethol a'r angen o ran tai, a all fod yn destunau ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2021.***

**4. <u>ADRODDIAD ARIANNOL Y CYD-BWYLLGOR (EITEM SEFYDLOG)</u>**

Cyflwynodd Steve Gadd (Pennaeth Cyllid ac Eiddo) ei adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol AHNE ar gyfer 2021/22.

Y rhagolwg cyfredol ar gyfer y sefyllfa derfynol oedd gorwariant o £8,750 yn deillio o gyfnod mamolaeth o fis Rhagfyr a chynnydd mewn costau teithio; bydd y swm hwn yn cael ei dynnu o’r cronfeydd refeniw wrth gefn sy’n weddill. Byddai’r effaith o lefelau cronfeydd wrth gefn llai angen ffurfio rhan o ystyriaethau cyllideb ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Nodwyd bod materion adnoddau yn Archwilio Cymru wedi arwain at oedi yn y broses o adrodd y cyfrifon terfynol.

Mewn ymateb i gwestiwn ar grantiau Covid gan y Cynghorydd David Kelly, eglurodd swyddogion bod newidiadau wedi bod yn y meini prawf cymhwyso ac na fyddai’r Gronfa Galedi ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Rhoddwyd esiamplau lle cafodd hawliadau grant eu defnyddio i gefnogi Ceidwaid Cynorthwyol a Gwasanaethau Cefn Gwlad ymysg eraill.

***PENDERFYNWYD - Nodi'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2020/21 (Atodiad 1) a chynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.***

**5. <u>CYFLWYNIAD AC ADRODDIAD CYNLLUN RHEOLI’R AHNE</u>**

Cyflwynodd David Shiel (Rheolwr Ardal yr AHNE) yr adroddiad ynghyd â’r Cynllun Rheoli drafft ar gyfer yr AHNE yn 2020 – 2025 sy’n gosod y blaenoriaethau ar gyfer rheoli Nodweddion a Rhinweddau Arbennig yr AHNE dros y pum mlynedd nesaf.

Rhoddodd gyflwyniad yn cynnwys y canlynol:

- Dyletswydd statudol – AHNE i gynhyrchu cynllun rheoli ar gyfer yr ardal ddynodedig.
- Tair rhan – Adroddiad Cyflwr yr AHNE; Strategaeth Rheoli’r AHNE; a’r Cynllun Gweithredu AHNE.
- Datblygu’r cynllun – nodi budd-ddeiliaid craidd ac ymarfer mapio i benderfynu ar fuddion ehangach.
- Ymgynghoriad Budd-ddeiliad – mae’r holiadur ar-lein wedi derbyn dros 500 o ymatebion gyda gweithdy i ddilyn yn Hydref 2020 i gytuno ar flaenoriaethau ac amcanion.
- Nodi blaenoriaethau – roedd agweddau emosiynol megis Llonyddwch, Pellter a Gwyllt, Gofod a Rhyddid yn cael eu hystyried yn agweddau pwysicaf. Nodwyd Newid Hinsawdd a Dirywiad Rhywogaethau fel yr heriau mwyaf sylweddol.

- Pedwar thema allweddol – Natur, Tirlun a Threftadaeth; Addasu i Hinsawdd sy'n Newid; Hamdden, Iechyd a Lles; a'r Economi Wledig.
- Camau nesaf - Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefin gyda phroses ymgynghori cyhoeddus ffurfiol i ddilyn, unwaith caiff ei gymeradwyo gan y Pwyllgor hwn.

Mewn ymateb i faterion o bryder lleol yn y Mwynglawdd a godwyd gan y Cynghorydd David Kelly, cytunodd David Shiel gysylltu gyda swyddogion CBSW. Cadarnhaodd y byddai'r Canllawiau Cynllun Atodol ar y fenter Awyr Dywyll yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio cyn ei fabwysiadu'r ffurfiol gan y tri Awdurdod.

Ar y thema Iechyd a Lles, amlygodd y Cynghorydd David Kelly y prosiect Milltiroedd Cymunedol a chynlluniau a oedd yn cael eu hyrwyddo gan y Gymdeithas Cerddwyr. Adroddodd David Shiel hefyd ar gyllid i wella mynediad o fynydd y Mwynglawdd i'r Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Natur.

Hysbysodd y Cynghorydd David Kelly am gynlluniau gan Weithrediaeth CBSW i wneud cais am statws 'Meysydd Chwarae Cymru' ar gyfer mwyafrif y parciau gwledig i ddiogelu'r safleoedd hynny rhag datblygiad yn y dyfodol. Adroddodd hefyd ar gynigion i adnewyddu'r bocs ffôn yn New Brighton ac i osod unedau diffibriliwr mewn pedwar cymuned.

Ar Iechyd a Lles, dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd am gyflwr y camfeydd, roedd yn ymddangos fod rhai ffermwyr yn annog cerddwyr cŵn rhag defnyddio'r Hawliau Tramwy ar eu tir. Cydnabu David Shiel yr heriau o ran gwneud llwybrau troed yn hygyrch i bawb, er gwaethaf dyletswydd cyfreithiol ar berchnogion tir, a dywedodd bod y prosiect Milltiroedd Cymunedol yn ceisio gwella hygyrchedd. Dywedodd Howard Sutcliffe bod achosion o'r fath yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion nad oedd yn gallu defnyddio camfeydd a chytunodd y byddai'n cysylltu â'r Cynghorydd Feeley i godi'r mater trwy CLILC.

O ran hyrwyddo giât mochyn, adroddodd y Cynghorydd Glyn Banks broblemau yn Sir y Fflint gyda sgwteri mawr. Gofynnodd hefyd am y posibilrwydd o gynnwys y llwybr o Llanasa dros dwyni tywod y Gronant a Thalacre gan gynnwys y goleudy. Dywedodd Howard Sutcliffe fod hyn tu allan i'r cwmpas ond y gallai gael ei ystyried yn y dyfodol. Cymerodd y Cynghorydd Banks y cyfle i ganmol y berthynas gadarnhaol rhwng swyddogion Cefn Gwlad yng Nghynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd David Kelly, dywedodd David Shiel fod ymgyrchoedd rheolaidd yn effeithiol o ran codi ymwybyddiaeth o risgiau i dda byw gyda chŵn oddi ar dennyn. Adroddodd hefyd at gyfranogiad swyddog ar y gweithgor cenedlaethol yn edrych ar y newidiadau posibl i'r gyfraith ar gŵn yng nghefn gwlad.

Cododd y Cynghorydd David Kelly ymholiad ar drapiau yn cael eu defnyddio ar rostir Rhiwabon. Cadarnhaodd David Shiel fod swyddogion yn ymwybodol a bod ymgysylltiad da gyda'r swyddfa ystâd.

Yn dilyn awgrym gan Lisa Jones, cytunwyd y byddai’r Asesiad Lles yn mynd gyda’r Cynllun Rheoli pan gaiff ei gyflwyno yn ôl i’r Pwyllgor yn dilyn cyfnod ymgynghori.

***PENDERFYNWYD - Bod y Cydbwyllgor yn derbyn y Cynllun Rheoli drafft a rhoi cymeradwyaeth i ymgynghoriad cyhoeddus. Bod yr Asesiad Lles yn dod yn ôl i’r Pwyllgor gyda’r Cynllun Rheoli yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.***

## 6. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE, CSDd) y rhaglen gwaith i’r dyfodol gyda’r diweddariadau canlynol:

- Y gofrestr risg, gan gynnwys risgiau i’r AHNE, i gyd-fynd â’r cyfrifon terfynol yn y cyfarfod nesaf.
- Cynnig cyllido Cyfoeth Naturiol Cymru Craidd AHNE wedi’i dderbyn.
- Cynllun Twristiaeth AHNE yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd ar Proactis ac allan i dendr.
- Oedi mewn ymateb gan swyddogion CSDd ar ganllawiau Priffyrdd, efallai bydd angen cysylltu â CSFf neu CBSW i wneud cynnydd.

Gofynnodd y Cadeirydd a’r Cynghorydd Bobby Feeley i Howard anfon dymuniadau gorau i Tony Hughes (Swyddog AHNE) a oedd ar fin ymddeol.

***PENDERFYNWYD – Bod y Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn nodi’r rhaglen gwaith i’r dyfodol.***

## 7. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Dydd Gwener, 18 Mawrth 2022
Dydd Gwener, 24 Mehefin 2022
Ddydd Gwener, 4 Tachwedd 2022

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am a gorffennodd am 11.30am)

Y Cynghorydd Tony Thomas
Cadeirydd

**Cyfarfod o Bartneriaeth yr AHNE**
**Dydd Gwener 4 Chwefror**
**am 10:00**
**Cyfarfod Tîm Ar-lein**

Yn Bresennol

**Aelodau Partneriaeth yr AHNE**

Y Cynghorydd Tony Thomas CSDD
**Cadeirydd y Cydbwyllgor**
Y Cynghorydd Bobby Feeley CSDD
Aelod o'r Cyd-bwyllgor
Y Cynghorydd Christine Marston CSDD
Y Cynghorydd Martyn Holland CSDD
Y Cynghorydd Graham Timms CSDD
Y Cynghorydd Sonia Benbow-Jones CBSW

Cadeirydd y Bartneriaeth
Andrew Worthington OBE
**Cadeirydd y Bartneriaeth**

Cynrychiolwyr Buddion Gwledig
Christine Evans, Roger Cragg

Cynrychiolydd Diddordeb Tirwedd
Michael Skuse

Cynrychiolwyr Buddion Trefol
Rajan Madhok

Cynrychiolydd yr Amgylchedd Naturiol
Les Starling

Cynrychiolwyr Rheoli Tir
Huw Morgan

Cynrychioli Hamdden a ROW
John Roberts

**AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

Howard Sutcliffe Swyddog AHNE
David Shiel Rheolwr Ardal yr AHNE
Karen Weaver Cydlynydd AHNE
Rachel Jones Uwch Geidwad Gogledd AHNE
Kate Thomson Rheolwr Prosiect EPT
Tom Johnstone Swyddog Newid Hinsawdd AHNE

Yn cynrychioli Cyngor Sir y Fflint:
Tom Woodall Pennaeth Gwasanaethau Cefn GwladCSFf a Gwella Hawliau Tramwy

Yn cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru
Alun Price Swyddog Partneriaethau Gogledd Ddwyrain

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

Sandy Archdale, Hannah Arndt, Y Cynghorydd Derek Butler, David Davies, Y Cynghorydd Hugh Jones, Rhun Jones, Helen Job, Tony King, Cllr Christine Marston, Ian Papworth, Huw Rees,

**1. Croeso**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu'r aelodau i'r Bartneriaeth.
Croesawodd hefyd Gynghorydd Arbenigol Arweiniol Tirwedd Cyfoeth Cenedlaethol Cymru (CNC), Jill Bullen.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2021**

Eglurodd y Cadeirydd y byddai 'Materion yn Codi' yn cael sylw yn y cyfarfod.

Tudalen 2 Cynllun Rheoli AHNE
Rhoddodd Rheolwr Ardal AHNE, David Shiel, ddiweddariad ar gynnydd y cynllun ac eglurodd ei fod bellach yn barod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai'n cael ei gynnal ar-lein trwy borth Sir Ddinbych am gyfnod o wyth wythnos.
Tai o fewn yr AHNE
Dywedodd y Swyddog AHNE bod Cyfarfod wedi'i gynnal gyda Swyddog Tai CSDd. Byddai'n adrodd ar y canlyniad yn y cyfarfod nesaf.

Gweithgor Rheoli Tir - Adfer Rhywogaethau
Roedd cyfarfod gweithgor wedi'i gynnal yn ddiweddar ac ystyriwyd Cynllun Gweithredu Adfer y Gylfinir. Fodd bynnag, yn anffodus nid oedd cyllid ar gael ar hyn o bryd i gynorthwyo gyda'r prosiect. Roedd yr AHNE yn gweithio mewn partneriaeth â'r RSPB yn ei hardaloedd deheuol.

Cais am Statws Awyr Dywyll
Canllawiau Atodol (CCA) ar gyfer Awyr Dywyll
Dywedodd Rheolwr Ardal AHNE, David Shiel, fod y canllawiau bellach wedi'u mabwysiadu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) Cyngor Sir y Fflint (aros am benderfyniad Cyngor Sir y Fflint). Unwaith y byddai'r ddogfen wedi'i mabwysiadu'n llawn, byddai'n cael ei chyhoeddi.

Gŵyl Awyr Dywyll
Roedd yr ŵyl, a fyddai'n cael ei chynnal ym mis Chwefror, mewn partneriaeth â holl dirweddau gwarchodedig Cymru. Gwybodaeth bellach i ddilyn.
Arsyllfa Symudol – Byddai arsyllfa symudol ynghyd â planetariwm yn cael eu prynu i gynorthwyo gyda digwyddiadau.

Goleuadau Allanol
Roedd ansawdd awyr ar draws yr AHNE i gyd wedi cael ei fonitro dros gyfnod o bedair blynedd. Roedd Llangollen a Bron wedi'u nodi fel yr ardaloedd lleiaf cyfeillgar i'r awyr dywyll a byddent yn cael eu blaenoriaethu i'w hystyried ar gyfer newid goleuadau allanol. Fodd bynnag, roedd rhai goleuadau allanol eisoes wedi'u disodli yn Llangollen a oedd yn cydymffurfio â'r statws. Gwnaed cais am gyllid ychwanegol.

Cymdeithas Ryngwladol Awyr Dywyll (CRAD)
Y gobaith oedd y byddai'r broses ymgeisio yn cael ei hailagor yn fuan.

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**2b. Cofnodion Cyfarfod GrŴp Llywio Ein Tirwedd Darluniadwy**
Roedd copi o Adroddiad Chwarterol ETD wedi'i ddosbarthu'n flaenorol.
Rhoddodd y Swyddog Partneriaeth, Kate Thomson, ddiweddariad ar rai o'r prosiectau:

| | | |
|---|---|---|
| Adfer y Cwt segur 'Lengths Man's' | - | Roedd y cwt yn cael ei adnewyddu i greu gorsaf croeso i ymwelwyr, neu er budd cymunedol arall. Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i symud y prosiect yn ei flaen. |
| Coetiroedd Pontcysyllte | - | Roedd teneuo coed wedi'i gwblhau yn y draphont ddŴr, er gwaethaf problemau tywydd. |

| | | |
|---|---|---|
| Porthdy Dinas Bran | - | Roedd gwaith ailgyfuno yn cael ei gwblhau gan Cadw yn y Porthdy. |
| Parc poced/Gwarchodfa Natur Wenffrwd | - | Mewn partneriaeth â phobl leol roedd dehongli wedi'i gwblhau. Taith farddoniaeth Artistiaid Preswyl i'w chynnal. |

Eglurodd Rheolwr Ardal AHNE, David Shiel, fod y gwaith teneuo coed i agor rhai o olygfeydd allweddol o'r draphont ddŵr wedi bod yn ddyhead i'r prosiect ers cryn amser, a bod y broses wedi bod yn heriol. Roedd y gwaith bellach wedi'i gwblhau ac roedd hyn yn dipyn o gamp i'r prosiect. Cytunwyd bod dod â'r safbwyntiau gwreiddiol yn ôl eto yn dipyn o gamp a llongyfarchwyd Tîm OPL am eu holl waith caled.

Gweithred
- Cynigiwyd cynnal cyfarfod nesaf y Bartneriaeth yn Neuadd Bentref Glyndyfrdwy, ac yna ymweliad safle â Thraphont Ddŵr Pontcysyllte.
- Cynigiwyd hefyd ymweliad safle â Gwaenysgor.

**3. Adfer Tirwedd a Natur mewn Hinsawdd sy'n Newid - Goblygiadau i'r AHNE.**

Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan Brif Gynghorydd Tirwedd Arbenigol CNC, Jill Bullen ac eglurodd fod y cyhoeddiad wedi'i gynhyrchu er mwyn rhoi arweiniad cychwynnol ar newid tirwedd mewn hinsawdd sy'n newid. Roedd yn brosiect cydweithredol rhwng CNC a'r AHNE. Ailadroddodd Jill fod gweithio mewn partneriaeth a chynwysoldeb gyda gwahanol sectorau yn hanfodol ar gyfer ei lwyddiant.

Mewn trafodaeth codwyd a oedd tyrbinau gwynt wedi cael eu hystyried, eglurwyd nad oeddent wedi eu cynnwys yn y ddogfen. Fodd bynnag, gallai tyrbinau bach ynghyd â phaneli solar ar dir fferm fod yn berthnasol. Nodwyd nad oedd yr holl newid yn y dirwedd a dirywiad mewn cynefinoedd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, mewn rhai achosion roedd yn esgeulustod, er enghraifft Ash Die Back.

Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd y byddai gweithio mewn partneriaeth yn allweddol.

Gweithred
- Roedd copïau caled o'r cyhoeddiad ar gael, o Loggerheads.

A fyddech cystal â thynnu sylw Karen os hoffech gadw copi.

**4. Gwaith y Tîm Ceidwaid**

Rhoddodd yr Uwch Geidwad, Rachel Jones, gyflwyniad yn amlygu rhai o'r prosiectau a oedd yn cael eu cyflawni gan y Tîm Ceidwaid yng Ngogledd yr AHNE (Llanarmon yn Iâl i Lechwedd Prestatyn – gan gynnwys Parc Gwledig Loggerheads).

| | | |
|---|---|---|
| Moel Findeg | - | Llwybr pren wedi'i osod a giât mochyn. |
| Loggerheads | - | Gwaith atgyweirio pontydd wedi'i wneud. |
| Llechwedd Prestatyn | - | Gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau ar Lwybr Clawdd Offa a dathliadau 50 mlynedd wedi'u cynnal. |
| Prosiect Pori | - | Byddai'r prosiect yn dod i ben yn fuan. |

Cytunodd yr Aelodau fod rhai prosiectau a gwaith partneriaeth ddiddorol iawn yn cael eu cyflawni, a diolchwyd i Rachel am gyflwyniad diddorol dros ben.

**5. Diweddariad gan y Swyddog AHNE**

Adroddodd y Swyddog AHNE, Howard Sutcliffe, bod gwaith ar y gweill ym mhob cornel o'r AHNE ar hyn o bryd, ond dim ond pan oedd digon o staff ar gael y byddai hyn yn bosibl. Roedd pob un o'r Gweithgorau (ac eithrio'r GrŴp Twristiaeth) wedi cyfarfod o leiaf unwaith drwy'r Teams.

**Diweddariad Tîm**
Roedd Swyddog Datblygu Cynaliadwy'r AHNE, Ceri Lloyd wedi dechrau ar ei chyfnod mamolaeth yn ddiweddar a byddai Jillian Howe a Ros Stockdale yn cyflawni ei rôl.
Roedd Tom Johnstone wedi ymuno â'r Tîm yn ddiweddar, ac roedd yn ychwanegiad da iawn.

Swyddog Cynllunio AHNE
Roedd y Swyddog Cynllunio, Tony Hughes wedi ymddeol yn ddiweddar. Bu Tony yn gefnogwr cyson ers cychwyn cyntaf yr AHNE ac roedd ei wybodaeth, ei gyfoeth o arbenigedd a chyngor gyda llawer o faterion dros y blynyddoedd wedi bod yn gadarn erioed.

Cytunodd pawb fod Tony wedi bod yn Swyddog Cynllunio rhagorol y byddai colled fawr ar ei ôl.

Gweithred

Y Cadeirydd i anfon llythyr o ddiolch at y Swyddog Cynllunio.

**6. Parc Cenedlaethol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru**

Darparodd y Swyddog AHNE ddiweddariad byr yn egluro bod dyraniad cyllid ar gyfer Statws Parc Cenedlaethol yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, a bod chwe Awdurdod Lleol yn awr yn destun ymgynghoriad. Roedd Prif Weithredwr yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, Rose O'Neill wedi cyfarfod yn ddiweddar â'r Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd, Julie James, i fynegi cefnogaeth i fwriad Llywodraeth Cymru i greu parc cenedlaethol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, roedd Julie hefyd wedi mynegi diddordeb wrth ymweld â'r AHNE. Roedd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, hefyd yn gefnogol i'r dynodiad. Aeth ymlaen i egluro nad oedd yr AHNE yn cael ei hystyried yn ddigon mawr ar gyfer statws Parc Cenedlaethol ac y byddai ardaloedd cyfagos addas eraill yn cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y dynodiad.

Roedd Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi cynnal digwyddiad ar-lein yn ddiweddar a'r siaradwr gwadd oedd Cyfarwyddwr Cymdeithas Eryri, John Harold. Roedd John wedi darparu rhywfaint o wybodaeth gefndir am y gymdeithas ac wedi rhannu rhai profiadau o sut beth oedd bod yn rhan o Barc Cenedlaethol. Roedd presenoldeb rhagorol yn y digwyddiad a'r gobaith oedd mai hwn fyddai'r cyntaf mewn cyfres o gyfarfodydd.

Ategodd y Swyddog AHNE ei fod yn allweddol i weithio mewn partneriaeth gyda'r bobl sy'n byw ac yn gweithio o fewn yr AHNE. Mynegwyd pryderon ynghylch y nifer o ddatblygiadau diweddar o fewn yr AHNE heb unrhyw ganiatâd cynllunio. Pe byddai statws Parc Cenedlaethol yn cael ei ennill, cydnabuwyd y byddai ganddo ei awdurdod cynllunio ei hun ac y gellid ymdrin â materion o'r fath yn brydlon ac effeithlon.

Cynigiwyd y dylid llunio rhestr o bwyntiau allweddol a fyddai'n ddefnyddiol i gyfeirio atynt ar gyfer unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol.

Gweithred

- Gwahodd cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru i'r cyfarfod nesaf.
- Ymweliad gan y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd Julie James AS i gael ei ddilyn i fyny.

**7. An Introduction to Climate Change and Green Infrastructure Initiatives in the AONB**

Rhoddodd Tom Johnstone, a benodwyd yn ddiweddar, Swyddog Newid Hinsawdd, Seilwaith Gwyrdd a Dalgylchoedd AHNE gyflwyniad byr yn amlygu rhai o'r prosiectau y mae'n eu rheoli:

- Isadeiledd Gwyrdd Llangollen
- Seilwaith Beicio, Ffotograffiaeth Pwynt Sefydlog
- Demo a chaffael E-UTV
- Cyfleoedd Tirwedd Garbon Niwtral Dynodedig

Mynegodd y Cyng Martyn Holland bryderon ynghylch beicio oddi ar y ffordd anghyfreithlon a beicio cwad o fewn yr AHNE. Aeth ymlaen i egluro ei fod mewn cysylltiad â Heddlu Gogledd Cymru, tirfeddianwyr a'r Trail Rider Foundation (TRO) ynghylch y mater. Roedd beicwyr anghyfreithlon yn broblem barhaus o fewn yr AHNE. Diolchodd y Cadeirydd i Tom am ei gyflwyniad hynod ddiddorol.

**8. Unrhyw Fusnes Arall**

Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**9. Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod Cyd-bwyllgor yr AHNE | Dydd Gwener 18Mawrth | 2022 | 10:00 | Lleoliad i'w benderfynu |
| Fforwm Pencampwyr ac Aelodau Lleol yr AHNE | Dydd Iau 12 Mai | 2022 | 7 pm | Lleoliad i'w benderfynu |
| Cyfarfod Partneriaeth AHNE | Dydd Gwener 20 Mai | 2022 | 10:00 | Lleoliad i'w benderfynu |
| Cyfarfod Cyd-bwyllgor yr AHNE | Dydd Gwener 24 Mehefin | 2022 | 10:00 | Lleoliad i'w benderfynu |
| Fforwm Blynyddol yr AHNE | Dydd Iau 22 Medi | 2022 | 7 pm | Lleoliad i'w benderfynu |
| Cyfarfod Partneriaeth AHNE | Dydd Gwener 14 Hyfref | 2022 | 10:00 | Lleoliad i'w benderfynu |
| Cyfarfod Cyd-bwyllgor yr AHNE | Dydd Gwener 4 Tachwedd | 2022 | 10:00 | Lleoliad i'w benderfynu |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Ein Prosiect Tirwedd Darluniadol

## Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Llywio

## Cyfarfod Rhithiol trwy Zoom

## Dydd Mawrth 7 Rhagfyr 2021, 2pm i 3pm

**Aelodau yn Bresennol**

Howard Sutcliffe (HS **Chair**), David Shiel (DS), Alun Price (AP), Allan Forrest (AF), Kate Thomson (KT), Ffion Roberts (FR), Huw Rees (HR) , Hannah Marubbi (HM), Sallyanne Hall (SH), Lynne Jones (LJ) Sarah Jones (SJ), Steve Grenter (SG), Rhun Jones (RJ), John Roberts (JR).

**Ymddiheuriadau**

Samantha Williams (SW), Paul Evans (PE), Andrea Fox (AFX), Kerry Williams (KW), Fiona Gale (FG), Del Roberts Jones (DRJ), Fiona Grant (FGr), Nicola Lewis-Smith (NLS), Tom Johnstone (TJ), Ros Stockdale (RS).

| | | |
|---|---|---|
| **1. Croeso ac Ymddiheuriadau** | Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a diolchwyd iddynt am fynychu cyfarfod rhithwir oherwydd cyfyngiadau presennol Covid 19. Ymddiheuriadau a nodir uchod. | **Gweithredoedd** |
| **2. Diweddariad ar gofnodion y cyfarfod diwethaf** | Rhoddodd DS ddiweddariad cyffredinol i'r grŵp am Wenffrwd. Cafwyd adborth da ynglŷn â Gwarchodfa Natur Wenffrwd ac mae wedi cael derbyniad da. Mae arian y Gronfa Lefelu i Fyny bellach wedi'i sicrhau. Mae'r contractwyr wedi bod ar y safle, a disgwylir iddynt ddechrau ar y gwaith ym mis Ionawr 2022. Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda pherchnogion tir cyfagos ynghylch mynediad i lwybr ar hyd yr hen reilffordd, ac mae cyfarfod gyda'r Ganolfan Iechyd yn Llangollen i fod i gael ei gynnal wythnos nesaf ynglŷn â defnydd o'u maes parcio, gan gysylltu'r llwybr arfaethedig â'r warchodfa natur.<br>Dywedodd RJ wrth y grŵp fod lluniau drôn wedi'u tynnu o safle Wenffrwd a fydd yn helpu gyda chynlluniau rheoli yn y dyfodol.<br>Rhoddodd HM y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp fod byrddau'r artistiaid preswyl bellach wedi'u tynnu o | |

| | | |
|---|---|---|
| | Wenffrwd, ac y byddant yn cael eu hadleoli i rywle arall yn ystod gwanwyn 2022.<br>Mae dolen ffilm animeiddiedig OPL wedi'i ddosbarthu i'r grŵp a bydd hefyd yn cael ei ddangos yng nghyfarfod nesaf grŵp VM WHS yfory.<br><br>Wrth gysylltu â Wenffrwd, hysbysodd SJ y grŵp fod Cadwyn Clwyd wedi bod yn gweithio gyda'r Cynghorydd Rondo Roberts o CBSW i weld pa mor ymarferol fyddai llwybr sy'n cysylltu Trefor ar hyd yr hen reilffordd â Llangollen. Mae astudiaeth dichonoldeb wedi ei threfnu ac ymgynghorydd wedi ei phenodi i edrych ar wahanol opsiynau a'r posibilrwydd o symud y prosiect hwn ymlaen gydag arian o'r Gronfa Lefelu i Fyny. | |
| **3.**<br>**Prosiect EPT Diweddariad ar y gofrestr risg** | The Project Update and Risk Register was circulated to the group prior to the meeting. KT informed the group that most of the projects are in marked green on the register, however those marked amber are mainly to keep them raised on the project team's radar. Community Engagement has been heavily impacted by Covid, however the project have worked with volunteer groups during the autumn. The Outreach project, targeting more vulnerable groups, worked with Dynamic during the summer. The new Covid variant could impact further going forward with these projects.<br>There is an additional column added on this document as ongoing work to the piece is changing some of the outcomes of the projects which was discussed in item 4 on the agenda.<br><br>Bydd y Gronfa Lefelu i Fyny yn cael ei defnyddio mewn rhai agweddau ar brosiectau EPT. Mae'r cyllid wedi'i gymeradwyo a bydd yn cael ei ddefnyddio yn Rhaeadr y Bedol, Wenffrwd, Plas Newydd a Basn Trefor. Bydd mwy o waith yn cael ei wneud ar broffiliau cyflawni a sut bydd hyn yn cael ei amserlennu. Mae gan CBSW a Chyngor Sir Ddinbych grwpiau cyflawni sy'n delio â'r gronfa Lefelu i Fyny.<br>Cyhoeddodd HM i'r grŵp y bydd ar absenoldeb mamolaeth yn dechrau ddiwedd mis Mawrth 2022 tan fis Rhagfyr ac mae hysbyseb swydd ar gyfer cyfnod mamolaeth 9 mis ar gyfer ei swydd yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.<br>Dywedodd KT wrth y grŵp fod NLHF wedi cytuno i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn ar gyfer y swydd dros dro hon. | |
| **4. Canlyniadau Prosiect Diwygiedig.** | Esboniodd DS i'r grŵp fod yr NHLF wedi gwahodd y prosiect i gael adolygiad canol tymor o allbynnau a chanlyniadau a ddyfeisiwyd yn wreiddiol ar gyfer y prosiect yn ystod y cam cynllunio. Bydd yr adolygiad yn ystyried canlyniadau arfaethedig gwreiddiol pob prosiect i benderfynu a ydynt yn dal yn berthnasol neu'n gyraeddadwy ac a oes angen ailosod amcan o | |

| | | |
|---|---|---|
| | ystyried y newidiadau sylweddol dros y 2 flynedd ddiwethaf yn ystod y pandemig Covid.<br>Dywedodd KT wrth y grŵp fod y darn hwn o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Rhannodd KT ei sgrin i ddangos i'r grŵp y ddogfen sydd wedi'i chyflwyno i'r monitor, gan ddangos y newidiadau i'r prosiect a'r allbwn a'r canlyniadau diwygiedig. | |
| **5. Cyflwyniad PowerPoint** | Rhannodd HM a KT sgrin o luniau gyda'r grŵp ac aeth â phawb drwy'r prosiectau a'r gwaith Ymgysylltu Cymunedol sydd wedi bod yn digwydd yn ystod misoedd yr hydref. Yn gryno, y prosiectau dan sylw oedd<br>• Rhaeadr y Bedol, gwaith adnewyddu Brilliant Basics.<br>• Llwybr Clincer, diwrnod clirio gwirfoddolwyr Trefor<br>• Diwrnodau Gwirfoddoli Plas Newydd<br>• Diwrnodau Rheoli Coetir a Gwirfoddolwyr Pontcysyllte<br>• Chwarae Cass ar y Gamlas i ysgolion lleol<br>• Gweithdai a digwyddiadau Artistiaid Preswyl.<br><br>Bydd y prosiect yn agor yr olygfa ym maes parcio Crane Street yng Nghefn Mawr. Mae CBSW wedi bod wrthi'n dewis coed i'w cwympo i agor yr olygfa o'r dyffryn ehangach, yn ogystal ag ychydig o ailadeiladu wal, a chael gwared ar lystyfiant o wely blodau sydd wedi gordyfu er mwyn agor y golwg o'r maes parcio. Bydd mainc newydd yn cael ei gosod a pheth gwaith adnewyddu yn cael ei wneud i fainc bresennol ar y safle.<br>Bydd HM yn anfon dolen ar gyfer y daith gylchol farddoniaeth a ddyfeisiwyd gan yr Artist Preswyl, Hywel Griffiths at unrhyw un sydd â diddordeb.<br><br>Diolchodd HM i JR am drefnu i Gyfeillion yr AHNE a gymerodd ran yn Nhaith Gerdded y Merched o amgylch y dyffryn yn Llangollen yn ystod yr hydref. | HM |
| **6. Unrhyw Fater Arall** | Mynegodd KT ei diolch i Allan Forrest, sy'n ymddeol y mis hwn, am ei holl gefnogaeth amhrisiadwy iddi hi a'r prosiect a bydd colled fawr ar ei ôl. Diolchodd AF i'r tîm am y gefnogaeth y mae'r prosiect wedi'i rhoi i WHS. Diolchodd y Cadeirydd hefyd am yr holl brosiect y mae AF wedi cyfrannu ato dros y blynyddoedd.<br><br>Dywedodd SG wrth y grŵp fod Cadw wedi cysylltu â CBSW i ystyried caffael rhan o Lwybr Clawdd Offa i'r Gogledd o'r A5. Mae SG yn ymddeol ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf a bydd yn ceisio datblygu'r prosiect hwn cyn iddo adael a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp. | |
| **7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** | **Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 1 Mawrth 2022 rhwng 2pm a 3pm.**<br>**Bydd dolen a phapurau'r cyfarfod yn cael eu hanfon cyn y cyfarfod hwn trwy TEAMS.** | FR |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYDBWYLLGOR**
**ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL**
**BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

**A gynhaliwyd ar: 18 Mawrth 2022**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Steve Gadd**

**Awdur yr Adroddiad: Paula O'Hanlon**

**Teitl: Sefyllfa Derfynol a Chyfrifon 2021/22 y Cydbwyllgor**

---

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

   Mae'r adroddiad yn manylu ar sefyllfa derfynol cyllideb refeniw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar gyfer 2021/22.

2. **Beth yw'r rheswm dros wneud y penderfyniad hwn:**

   Pwrpas yr adroddiad yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol amcanol yr AHNE ar 31 Mawrth 2022.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

   Gofynnir i'r aelodau nodi rhagolwg diweddaraf y sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2021/22 (Atodiad 1) a'r cynnydd o ran y strategaeth gyllidebol gytunedig.

4. **Manylion yr Adroddiad**

   Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o alldro refeniw rhagamcanol yr AHNE ar gyfer 2021/22 y manylir arno yn Atodiad 1. Y sefyllfa alldro a ragwelir yw tanwariant o £6,314 ac fe'i dangosir fel y 'cyfraniad is o'r gronfa wrth gefn' o £19,376 yn erbyn y ffigwr a gyllidebwyd o £25,690.

5. **Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

   Bydd rheoli cyllidebau refeniw'r AHNE yn effeithiol yn helpu i gyflawni blaenoriaethau a gytunwyd arnynt yn y cynllun rheoli ar gyfer y flwyddyn bresennol ac yn sail i weithgarwch ym mhob maes, yn enwedig ein perthynas â'n partneriaid cyllido a'n cyd-flaenoriaethau.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

   Nid oes unrhyw gost uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

   *Amherthnasol*

8. **Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

   Mae'r sefyllfa ariannol yn eitem sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd y Cydbwyllgor.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

   Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2021/22.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

    Mae'r gyllideb yn dibynnu ar incwm gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r tri Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newid i lefel yr incwm hwn yn peri risg i gyflawni prosiectau yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yng Nghynllun Rheoli'r AHNE.

    Fel y nodir yn y gyllideb mae angen cefnogi'r gyllideb refeniw o'r gronfa refeniw wrth gefn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

    Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

**AONB JOINT COMMITTEE** Appendix 1

**(DENBIGHSHIRE, FLINTSHIRE AND WREXHAM COUNCILS)**

**CORE - REVENUE INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT AT 28th FEBRUARY 2022**


| | **Budget 2021/22** | **Forecast Outturn 2021/22** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| **EXPENDITURE** | | |
| Employees | | |
| Salaries | 191,515 | 192,231 |
| Training & Conference | 1,000 | 1,038 |
| Subscriptions | 3,126 | 2,811 |
| Physiotherapy | | 210 |
| Insurance | 668 | 668 |
| Total Employee costs | 196,309 | 196,958 |
| Vehicle and Travel | | |
| Vehicle Hire | 0 | 242 |
| Mileage | 2,500 | 2,500 |
| Use of Public Transport | 0 | 127 |
| Total Vehicle & Travel Expenses | 2,500 | 2,869 |
| Other | | |
| Protective Clothing | 2,500 | 3,000 |
| Management Plan/Prof fees | 2,500 | 2,500 |
| Audit Fees | 1,134 | 1,134 |
| IT / Communication costs | 2,900 | 2,970 |
| Telephones | 700 | 694 |
| Total Other Expenses | 9,734 | 10,298 |
| Projects | | |
| Grants | 95,000 | 95,000 |
| Total Project costs | 95,000 | 95,000 |
| **TOTAL EXPENDITURE** | **303,543** | **305,125** |
| **INCOME** | | |
| NRW CRDV Grant | -107,000 | -107,750 |
| SDF Mgmt fee | -5,000 | -5,000 |
| SDF Grant | -95,000 | -95,000 |
| LA Funding | -80,168 | -80,168 |
| Contributions from Reserve | -16,375 | -17,253 |
| **TOTAL INCOME** | **-303,543** | **-305,171** |
| **Total Net Expenditure** | **0** | **-46** |

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Risk Register for Clwydian Range and Dee Valley AONB Joint Committee March 2022

| | | Risg Presennol | | | Statws | Perchennog | Rheolaethau / Lliniaru | Risg Gweddilliol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ID | Risk | Tebygolrwydd | Effaith | Difrifoldeb RAYG | Agored / Ar gau | | | Tebygolrwydd | Effaith | Difrifoldeb RAYG |
| 1 | Withdrawl of one or more Local Authorities from Joint Committee | D | 1 | | Agored | Howard Sutcliffe | Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Rheolaidd a Gweithgorau Swyddogion | D | 1 | |
| 2 | Loss of Funding from one of the Local Authorities | D | 1 | | Agored | Howard Sutcliffe | Cyfarfodydd Rheolaidd gyda swyddogion unigol yr Awdurdodau Lleol | D | 1 | |
| 3 | Loss of Funding from NRW | D | 1 | | Agored | Howard Sutcliffe | Cyfarfodydd rheolaidd gyda Swyddogion CNC | D | 1 | |
| 4 | Denbighshire CC withdrawing from hosting the Joint Committee | E | 3 | | Agored | Emlyn Jones/Garry Williams | Gweithio gyda'r tri Awdurdod Lleol | E | 3 | |
| 5 | Inquorate meetings leading to delay in decision making | E | 2 | | Agored | Howard Sutcliffe | Pob arweinydd ar gyfer CSDd, CBSW a Chyngor Sir y Fflint i wneud yn siŵr bod aelodau'n mynychu drwy bob dull e-bost, ffôn ac ati | E | 2 | |
| 6 | Being without a Statutory Management Plan | D | 4 | | Ar gau | David Shiel | Cefnogaeth i Swyddog Rheoli Ardal yr AHNE o ran cysylltu, monitro a chyflawni'r cynllun presennol trwy rôl gefnogi newydd | D | 4 | |
| 7 | Legal Agreement not being upto date | E | 2 | | Ar gau | Lisa Jones | Cadw dyddiad adnewyddu dan adolygiad | E | 2 | |
| 8 | Lack of appropriate budgetry management and control not meeting financial standards | D | 4 | | Agored | Steve Gadd | Cyfarfodydd rheolaidd i adolygu safonau ariannol | D | 4 | |
| 9 | There is ineffective monitoring of the budget | D | 4 | | Agored | Steve Gadd/Paula O'Hanlon | Cyfarfodydd Monitro Cyllideb Rheolaidd | D | 4 | |
| 10 | Covid 19 has had a significant impact on the Joint Committees ability to deliver an effective Service. | C | 2 | | Agored | Howard Sutcliffe | Mae pwysau adolygu rheolaidd gan ymwelwyr wedi cynyddu'n aruthrol yn 2020 a 2022 ac wedi effeithio ar y Tîm Ceidwaid. Mae'n bwysig bod y cynnydd yn nifer y Ceidwaid yn ymateb i COVID 19 a chefnogaeth i groesawu ymwelwyr yn ôl o ran ein budd economaidd drwy dwristiaeth. | C | 2 | |
| 11 | New National Park for North East Wales- the impact of this designation is likelyto make the Joint Committee superflous to requirements | B | 1 | | Agored | Howard Sutcliffe | Monitro Cynnydd - cyswllt agos gyda NEW a LIC | B | 1 | |



Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

| Diweddariad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Mawrth 2022 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Presennol** | **Manylion/Cam Gweithredu** | **Amserlen** | **Amserlen** Heb ddechrau neu'n broblem = Coch Ar waith, ar y trywydd iawn = Oren Cwblhawyd = Gwyrdd | **Cost – negyddol neu + bositif (£ Cost) neu niwtral (Trwy gyllidebau presennol ac allanol)** |
| **Newydd** | ***Cam gweithredu diweddaraf*** | **Dyddiadau newydd** | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Cyllid ac Ariannu | *Cofrestr Risg Ddrafft i'r Cyd-bwyllgor 18.3.22* | **2021-22** | | Niwtral |
| Cyllid Craidd AHNE CNC | *Cynnig ar gyfer 20-22 wedi'i dderbyn 23.10.21* | 2021-22 | | +positif |
| Cronfa Datblygu Cynaliadwy | LIC yn parhau i ariannu £100,000 *15 prosiect 8 grant ffermio i'w cadarnhau ym mis Mawrth* | 2021-22 | | +positif |
| **Cynlluniau Strategol 2017-20** | | | | |
| **Cynllun Rheoli'r AHNE** | *Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y gweill* | **2021-24** | | Niwtral |
| Strategaeth Estyn Allan a Gwirfoddolwyr | *Gwirfoddoli yn ei ôl* | **2021-22** | | Niwtral |
| **Cynllun Twristiaeth AHNE** | *Ymgynghoriad ar y gweill* | **2021-22 Rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy LIC** | | Niwtral |
| **Cyd-bwyllgor AHNE** | | | | |
| Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor | **3** *cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor wedi'u cynnal ar ôl heddiw* | **2021-22** | | Niwtral |
| Cytundeb Cyfreithiol ALI | Awdurdodau Lleol wedi cytuno a chadarnhau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf | 2019-2024 | | Niwtral |
| Fforwm yr AHNE | *Wedi'i gynnal yn Llysfasi 23.9.21 Thema hanesyddol /archeolegol* | 2021-22 | | Niwtral |
| AHNE yn cwrdd ag Aelodau Lleol /Cynghorwyr Tref a Chymuned/ Cefnogwyr AHNE | *Cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 12.5.22* | **2021-22** | | Niwtral |



Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Wrexham County Borough Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

| Diweddariad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Mawrth 2022 Parhad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Presennol** | **Manylion/Cam Gweithredu** | **Amserlen** | **Amserlen** Heb ddechrau neu'n broblem = Coch Ar waith, ar y trywydd iawn = Oren Cwblhawyd = Gwyrdd | **Cost – negyddol neu + bositif neu niwtral** |
| **Newydd** | ***Cam gweithredu diweddaraf*** | **Dyddiadau newydd** | | |
| **Partneriaeth yr AHNE** | | | | |
| Cyfarfodydd y Bartneriaeth AHNE Llawn | *3 cyfarfod o Bartneriaeth yr AHNE wedi'u cwblhau* | **2021-22** | | Niwtral |
| Gwobr AHNE | *Wedi rhoi gwobrau i Ysgol Cilcain a Grŵp Celf Loggerheads 24.9.21* | **2021-22** | | Niwtral |
| **Gweithgorau'r Bartneriaeth:** | | | | |
| Cymeriad Tirwedd a'r Amgylchedd Adeiledig | *Ymddeolodd Tony Hughes yn Chwefror 2022. Swydd yn cael ei hysbysebu* | **2021-22 1 cyfarfod** | | +positif |
| Rheoli Tir a'r Amgylchedd Naturiol | ***Cyfarfod cyntaf 28.1.22 ers COVID - Thema'r Gylfinir*** | **2021-22** | | +positif |
| Diwylliant, Treftadaeth a Chymunedau | *5 cyfarfod wedi'u cwblhau yn cynnwys 2 ymweliad safle* | ***2021-22*** | | +positif |
| Twristiaeth | ***Cyfarfod cyntaf 22.3.22 ar y Strategaeth Newydd*** | **2021-22** | | +positif |
| Hamdden ac Iechyd | ***Cyfarfod cyntaf 20.1.22*** | **2021-22** | | +positif |

| Diweddariad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Mawrth 2022 Parhad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Presennol** | **Manylion/Cam Gweithredu** | **Amserlen** | **Amserlen**<br>**Heb ddechrau neu'n broblem = Coch**<br>**Ar waith, ar y trywydd iawn = Oren**<br>**Cwblhawyd = Gwyrdd** | **Cost – negyddol neu + bositif neu niwtral** |
| **Newydd** | ***Cam gweithredu diweddaraf*** | **Dyddiadau newydd** | | |
| **Prosiectau Arbennig AHNE** | | | | |
| Cyllid 1 Llywodraeth Cymru | Rheoli ymwelwyr Moel Famau Goleuadau Loggs £180,000 | 2021 Mehefin | | +positif |
| Cyllid 2 Llywodraeth Cymru | Newid yn yr hinsawdd Mynediad Canŵ Gwybodaeth Milltiroedd Cymunedol Ymestyn y tymor £75,000 | 2021 Mehefin | | +positif |
| Adferiad Ariannol GI 3 Llywodraeth Cymru | Prosiectau GI wedi'u Cymeradwyo gan LlC: Gwenffrwd, Loggerheads, Moel Findeg, Hen Ardd a Graig Fawr £185,900 | 2021 Mehefin | | +positif |
| Llywodraeth Cymru Arian Cyfalaf 2021-22 | ***LlC wedi dyrannu £225,000***<br>• *Prynu UTV trydan*<br>• *Y Strategaeth Twristiaeth*<br>• *Gwenffrwd*<br>• *Gwarchodfa Natur Leol*<br>• *Gwybodaeth Ddaearyddol Llangollen*<br>• *Cymunedau Gwyrdd yn penodi Swyddog AHNE*<br>• *Golygfan Lôn y Ffynnon/ Gwaenysgor* | **2021-22** | | +positif |
| Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy | *Gweler eitem 3 ar y rhaglen heddiw* | 2018-23 | | +positif |
| Prosiect Anifeiliaid Pori | *Prynu/ffensio Bryniau Prestatyn wedi'i gwblhau* | *2020-22* | | Niwtral |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Newid yn yr hinsawdd | • *Dogfen Gwarchodfa Natur Leol yn y CS wedi'i gyhoeddi* | 2021-22 | | Niwtral |

| Diweddariad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Mawrth 2022 Parhad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Presennol** | **Manylion/Cam Gweithredu** | **Amserlen** | **Amserlen**<br>**Heb ddechrau neu'n broblem = Coch**<br>**Ar waith, ar y trywydd iawn = Oren**<br>**Cwblhawyd = Gwyrdd** | **Cost – negyddol neu + bositif neu niwtral** |
| **Newydd** | ***Cam gweithredu diweddaraf*** | **Dyddiadau newydd** | | |
| **Sefydliadau Adran 85** | | | | |
| Llinellau Rhwydwaith SP | Yn ôl ar y trywydd iawn. Cynlluniau newydd sy'n cael eu hystyried – Llangar, Plas Newydd a Thŵr Dŵr Llangollen. Cynllun Tollborth posibl yr A5 (newid mewn perchnogion) | **2021-22** | Oren | Niwtral |
| Canllawiau Cynllunio Atodol Awyr Dywyll | Y 3 ALl wedi cytuno ar y CCA Awyr Dywyll. 2 o'r 3 yn cymeradwyo FCC ym Mawrth | **2022** | Gwyrdd | +positif |
| Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol a Menter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol | Swyddog AHNE yn cynrychioli 39 AHNE ar y Bwrdd Cenedlaethol. 2 Gynllun Menter Gwella Tirwedd Dyffryn Morwinion a'r Mwynglawdd Corwen, datganiadau o ddiddordeb wedi eu cymeradwyo | 2021-23 | Oren | Niwtral |
| Tirweddau'r Dyfodol yng Nghymru LIC | Cyfarfodydd misol rheolaidd 1 Swyddogion Arweiniol | 2021-22 | Gwyrdd | Niwtral |
| Gwaith Trin Carthion Pontcysyllte | *Prosiect wedi'i gwblhau. Bydd Dŵr Cymru yn creu dôl a chlawdd ffin* | **2021-22** | Oren | Niwtral |
| Severn Trent | *Cyfarfod gydag ST a Rheoleiddiwr Mehefin, archwilio cyfleodd dal tir* | **2021-22** | Gwyrdd | +positif |
| Canllawiau Priffyrdd ar gyfer Awdurdodau Lleol | *Creu dogfen ar gyfer ymgynghoriad* | **2021-22** | Gwyrdd | +positif |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag